



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 Rhif 1785 (Cy. 122 )**

**2000 No. 1785 (W. 122 )**

## **TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

## **ROAD TRAFFIC, WALES**

**Rheoliadau Gorchmynion Traffig  
Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar  
gyfer Personau Anabl)(Cymru)  
2000**

**The Local Authorities' Traffic  
Orders (Exemptions for Disabled  
Persons) (Wales) Regulations  
2000**

### **NODYN ESBONIADOL**

### **EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Diben y Rheoliadau hyn (gyda Rheoliadau cysylltiedig ar Fathodynau ar gyfer Cerbydau Modur) yw cyflwyno cyfundrefn bathodynau glas ar gyfer personau anabl o Gymru fydd yn cael eu derbyn ar draws yr Undeb Ewropeaidd yn lle'r un bresennol sy'n seiliedig ar fathodynau oren.

Mae rheoliadau tebyg yn cael eu gwneud yn y rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn dilyn Argymhelliad a wnaed ym 1998 gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.

Gall awdurdodau lleol wneud gorchmynion ynglŷn â pharcio o dan Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984. Pennwyd esemptiadau ar gyfer personau anabl y byddai'n ofynnol i'r awdurdodau lleol eu cynnwys mewn gorchmynion ynglŷn â gwaharddiadau a chyfyngiadau parcio a'r tâl y gellid ei godi yn Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl)(Lloegr a Chymru) 1986.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliadau 1986 (rheoliad 2).

Yn rheoliadau 3 a 4 dehonglir termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Mae rheoliadau 5 i 9 yn pennu'r gorchmynion perthnasol a'r modd y bydd yr esemptiadau yn effeithio arnynt.

The purpose of these Regulations (together with related Regulations dealing with Badges for Motor Vehicles) is to introduce a system of blue badges for disabled people from Wales that will be valid across the European Union to replace the current orange badge system.

Similar regulations are being made in the other parts of the United Kingdom pursuant to a Recommendation made by the Council of the European Union in 1998.

Local authorities are able to make orders relating to parking under the Road Traffic Regulation Act 1984. The Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (England and Wales) Regulations 1986 specified the exemptions in favour of disabled people that it would be necessary for local authorities to include in orders regarding parking prohibitions and limits and the charges that could be imposed.

These Regulations revoke the 1986 Regulations (regulation 2).

Regulations 3 and 4 define terms used in the Regulations.

Regulations 5 to 9 specify the relevant orders and the way in which the exemptions will affect them.

2000 Rhif 1785 (Cy. 122)

2000 No. 1785 (W. 122)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Rheoliadau Gorchmynion Traffig  
Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar  
gyfer Personau Anabl)(Cymru)  
2000

The Local Authorities' Traffic  
Orders (Exemptions for Disabled  
Persons) (Wales) Regulations  
2000

*Wedi'u gwneud* 5 Gorffennaf 2000  
*Yn dod i rym* 5 Gorffennaf 2000

*Made* 5th July 2000  
*Coming into force* 5th July 2000

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 23 o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(a) del eu hestynnwyd gan adran 21(1)(b) o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970(b), a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(c) a phob pwr arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, ac wedi ymgynghori â chyrff cynrychioliadol yn unol ag adran 134(2) o'r Ddeddf 1984 honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by paragraph 23 of Schedule 9 to the Road Traffic Regulation Act 1984(a) as extended by section 21(1)(b) of the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970(b) and now vested in the National Assembly(c) and of all other powers enabling it in that behalf, and after consultation with representative organisations in accordance with section 134(2) of that 1984 Act, hereby makes the following Regulations:

## Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 5 Gorffennaf 2000

## Citation and commencement

1. These Regulations may be cited as the Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 5th July 2000.

## Diddymu.

2. Diddymir Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Lloegr a Chymru) 1986 (ch).

## Revocation

2. The Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (England and Wales) Regulations 1986(d) shall be revoked.

(a) 1984 p.27.

(b) 1970 p.44; diwygiwyd adran 21 gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70) Atodlen 30; Deddf Llywodraeth Leol (Yr Alban) 1973 (p.65), Atodlen 14; Deddf Trafniadaeth 1982 (p.49), adran 68; Deddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 (p.27), Atodlen 13, paragraff 11; Deddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51), Atodlen 5; Deddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40), adran 35, Atodlen 8; Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19), Atodlen 10, paragraff 8; a Deddf Llywodraeth Leol etc. (yr Alban) 1994 (p.39), Atodlen 13, paragraff 86.

(c) *Gweler* Gorchmyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672).

(ch) O.S. 1986/178, y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Nid yw'r Rheoliadau hyn bellach yn gymwys yn Lloegr yn rhinwedd Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Lloegr) 2000 (O.S. 2000/683).

(a) 1984 c.27.

(b) 1970 c.44; section 21 was amended by the Local Government Act 1972 (c.70), Schedule 30; the Local Government (Scotland) Act 1973 (c.65), Schedule 14; the Transport Act 1982 (c.49), section 68; the Road Traffic Regulation Act 1984 (c.27), Schedule 13, Paragraph 11; the Local Government Act 1985 (c.51), Schedule 5; the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 35, Schedule 8; the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19), Schedule 10, paragraph 8; and the Local Government etc. (Scotland) Act 1994 (c.39), Schedule 13, paragraph 86.

(c) *See* National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(d) S.I. 1986/178, to which there are amendments not relevant to these Regulations. These Regulations no longer apply in England by virtue of the Local Authorities Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (England) Regulations 2000 (S.I. 2000/683).

## Dehongli

### 3.-(1) Yn y rheoliadau hyn-

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw cyngor sir, neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr “bathodyn person anabl” (“*disabled person’s badge*”) yw bathodyn -

(a) a roddwyd, neu sydd yn cael effaith fel petai wedi ei roi, i berson anabl neu sefydliad o dan y Rheoliadau Bathodynnau neu o dan reoliadau sy’n effeithiol yn yr Alban neu Loegr o dan gymal 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970; a

(b) sydd yn parhau mewn grym;

ystyr “Deddf 1984” (“*the 1984 Act*”) yw Deddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984;

ystyr “disg barcio” (“*parking disc*”) yw’r ystyr a roddir yn rheoliad 8(5);

ystyr “lôn beiciau” (“*cycle lane*”) yw’r ystyr a roddir i “cycle lane” yn rheoliad 4 o Reoliadau Arwyddion Traffig 1994 (a);

ystyr “lôn bysiau” (“*bus lane*”) yw’r ystyr a roddir i “bus lane” yn rheoliad 23(3) o Reoliadau Arwyddion Traffig 1994;

ystyr “oriau gweithredu” (“*hours of operation*”) mewn perthynas a lôn beiciau neu lôn bysiau yw’r cyfnodau pan fydd y cyfyngiadau sydd yn ei gwneud yn lôn beiciau neu’n lôn bysiau yn gymwys;

ystyr “y Rheoliadau Bathodynnau” (“*The Badges Regulations*”) yw Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) 2000(b).

### (2) Yn y Rheoliadau hyn-

(a) mae cyfeiriad at orchymyn sy’n cynnwys darpariaeth o fath penodol yn cynnwys cyfeiriad at orchymyn sy’n cymhwyso darpariaeth o’r math hwnnw mewn gorchymyn presennol; a

(b) mae cyfeiriad at orchymyn a wnaed o dan unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 1984 yn cynnwys cyfeiriad at orchymyn sy’n cael effaith fel petai wedi ei wneud o dan y Ddeddf honno, ac at orchymyn sy’n amrywio neu’n diddymu gorchymyn sy’n cael effaith fel petai wedi ei wneud o dan y Ddeddf honno.

## Ystyr “safle perthnasol”

4.-(1) Mae cerbyd yn arddangos bathodyn person anabl yn y safle perthnasol os yw’n cael ei arddangos yn y modd a ragnodir gan reoliad 12 o’r Rheoliadau Bathodynnau.

(2) Mae cerbyd yn arddangos disg barcio yn y safle perthnasol -

(a) O.S. 1994/1519, gweler Rhan I.

(b) O.S. 2000/ 1786 (Cy. 123).

## Interpretation

### 3.-(1) In these Regulations -

“the 1984 Act” (“*Deddf 1984*”) means the Road Traffic Regulation Act 1984;

“the Badges Regulations” (“*y Rheoliadau Bathodynnau*”) means the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(a);

“bus lane” (“*lôn bysiau*”) has the meaning given by regulation 23(3) of the Traffic Signs Regulations 1994(b);

“cycle lane” (“*lôn beiciau*”) has the meaning given by regulation 4 of the Traffic Signs Regulations 1994;

“disabled person’s badge” (“*bathodyn person anabl*”) means a badge which was -

(a) issued, or has effect as if issued, to a disabled person or an institution under the Badges Regulations or under regulations having effect in Scotland or England under section 21 of the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970; and

(b) has not ceased to be in force;

“hours of operation” (“*oriau gweithredu*”) in relation to a bus lane or a cycle lane means the periods during which the restrictions, by virtue of which it is a bus lane or cycle lane, apply;

“local authority” (“*awdurdod lleol*”) means a county council, or county borough council; and

“parking disc” (“*disg barcio*”) has the meaning given by regulation 8(5).

### (2) In these Regulations -

(a) a reference to an order which includes a provision of a specified kind includes a reference to an order which applies a provision of that kind in an existing order; and

(b) a reference to an order made under any provision of the 1984 Act includes a reference to an order having effect as if made under that Act and to an order varying or revoking an order made or having effect as if made under that Act.

## Meaning of “relevant position”

4.-(1) A vehicle displays a disabled person’s badge in the relevant position if it is displayed in the manner prescribed by regulation 12 of the Badges Regulations.

(2) A vehicle displays a parking disc in the relevant position -

(a) S.I. 2000/ 1786 (W.123).

(b) S.I. 1994/1519, see Part I.

(a) os yw'r ddisg yn cael ei harddangos ar ddangosfwrdd neu banel deialau y cerbyd; neu

(b) os yw'r ddisg yn cael ei harddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd os nad oes dangosfwrdd neu banel deialau gan y cerbyd,

fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd pan fydd y cyfnod wedi ei farcio ar y ddisg.

### **Cymhwyso**

5. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw orchymyn ynglyn â ffordd sydd wedi'i wneud gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru o dan adrannau 1, 9, 35, 45, neu 46 o Ddeddf 1984.

### **Esemptiad ar gyfer cerbydau sy'n arddangos bathodynau person anabl**

6.-(1) Bydd darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn yn effeithiol i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys, mewn gorchymynion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, esemptiadau ar gyfer cerbyd sy'n arddangos bathodyn person anabl.

(2) Ceir cyfyngu unrhyw esemptiad o ddarpariaeth (y mae'r Rheoliadau hyn yn gorfodi ei chynnwys) mewn gorchymyn i gerbydau o'r un dosbarth â'r rhai y mae'r ddarpariaeth yn gymwys iddynt.

### **Esemptiad rhag gwaharddiadau ar aros yn fwy nag amser penoddedig**

7.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i orchymyn sydd wedi'i wneud o dan adran 1, 9, 35, 45 neu 46 o Ddeddf 1984 -

(a) os yw'r gorchymyn yn cynnwys darpariaeth sy'n gwahardd cerbydau neu unrhyw ddsbarth ar gerbydau rhag aros ar ffordd, naill ai -

- (i) yn hwy na chyfnod penodol; neu
- (ii) pan fydd llai na chyfnod penodol wedi mynd heibio ers cyfnod aros blaenorol gan yr un cerbyd ar y ffordd honno, a

(b) os nad yw'r gwaharddiad yn gymwys i bob cerbyd heblaw cerbydau personau anabl.

(2) Rhaid i orchymyn y bydd y rheoliad hwn yn gymwys iddo gynnwys esemptiad o'r gwaharddiad er budd cerbyd sy'n dangos bathodyn person anabl yn y safle perthnasol.

### **Esemptiadau rhag gwaharddiadau ar aros ar bob adeg neu yn ystod cyfnodau penodol**

8.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i orchymyn sydd wedi'i wneud o dan adrannau 1, 9, 35, 45 neu 46 o Ddeddf 1984 sy'n cynnwys darpariaeth -

- (a) sydd yn gwahardd (heblaw er mwyn llwytho

(a) if the disc is exhibited on the dashboard or fascia of the vehicle; or

(b) if where the vehicle does not have a dashboard or fascia, the disc is exhibited in a conspicuous position on the vehicle,

so that when marked to show the quarter-hour period during which a period of waiting began, that period is clearly legible from the outside of the vehicle.

### **Application**

5. These Regulations apply to any order made in relation to a road by a county or county borough council in Wales under section 1, 9, 35, 45 or 46 of the 1984 Act.

### **Exemption in favour of vehicles displaying disabled person's badges**

6.-(1) The following provisions of these Regulations have effect for requiring local authorities to include, in orders to which these Regulations apply, exemptions in favour of a vehicle displaying a disabled person's badge.

(2) Any exemption from a provision (which these Regulations require to be included) in an order may be limited to vehicles of the same class as those to which the provision applies.

### **Exemption from prohibitions on waiting beyond a specified time**

7.-(1) This regulation applies to an order made under section 1, 9, 35, 45 or 46 of the 1984 Act -

(a) if the order includes a provision prohibiting the waiting of vehicles or vehicles of any class in a road either -

- (i) beyond a specified period; or
- (ii) where less than a specified period has elapsed since a previous period of waiting by the same vehicle in that road, and

(b) if the prohibition does not apply to all vehicles except disabled persons' vehicles.

(2) An order to which this regulation applies shall include an exemption from the prohibition in favour of any vehicle displaying a disabled person's badge in the relevant position.

### **Exemptions from prohibitions on waiting at all times or during specified periods**

8.-(1) This regulation applies to an order made under section 1, 9, 35, 45 or 46 of the 1984 Act which includes a provision which -

- (a) prohibits (except for the purposes of loading or

neu ddadlwytho) unrhyw gerbydau neu unrhyw ddsbarth ar gerbydau, rhag aros ar ffordd ar bob adeg o'r dydd neu yn ystod un neu fwy o gyfnodau penodol o'r dydd;

- (b) nad yw'n gymwys i lôn bysiau neu lôn beiciau yn ystod yr oriau gweithredu; a
- (c) nad yw'n ddarpariaeth o'r math y cyfeirir ati yn rheoliad 7(1).

(2) Rhaid i orchymyn y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo gynnwys esemptiad rhag y gwaharddiad yn unol â pha un bynnag o baragraffau (3) neu (4) sy'n briodol ar gyfer unrhyw gerbyd sy'n arddangos bathodyn person anabl yn y safle perthnasol.

(3) Pan na fydd cyfnod y gwaharddiad yn fwy na thair awr, rhaid i'r esemptiad bara am y cyfan o'r cyfnod hwnnw.

(4) Pan fydd cyfnod y gwaharddiad yn fwy na thair awr bydd yr esemptiad yn para am gyfnod o dair awr, yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:-

- (a) na fydd y cyfnod aros a esemptir yn cychwyn lai nag un awr wedi cyfnod aros blaenorol a esemptiwyd ar gyfer yr un cerbyd ar yr un ffordd ar yr un diwrnod;
- (b) yr arddangosir disg barcio wedi ei marcio i ddangos y cyfnod o chwarter awr pan gychwynnodd y cyfnod aros a esemptir yn y safle perthnasol ar y cerbyd.

(5) Yn y rheoliad hwn ystyr "disg barcio" yw dyfais sydd -

- (a) yn 125 milimetr sgwâr ac o liw glas os yw wedi ei roi ar y dydd y daw'r Rheoliadau hyn i rym neu wedi hynny, neu o liw oren os yw wedi ei roi cyn hynny;
- (b) wedi ei roi gan awdurdod lleol a heb beidio â bod yn ddilys; ac
- (c) yn gallu dangos y cyfnod o chwarter awr pan gychwynnodd cyfnod aros.

### **Esemptiadau rhag darpariaethau eraill gorchmynion o dan adran 45 neu 46 o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**

9.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i orchymyn sydd wedi'i wneud o dan adran 45 neu 46 o Ddeddf 1984 sy'n rhagnodi-

- (a) tâl i'w dalu ar gyfer unrhyw gerbyd neu gerbyd o unrhyw ddsbarth sydd wedi'i adael mewn lle parcio a ddynodir gan y gorchymyn;
- (b) y cyfnod hwyaf y caiff cerbyd aros mewn lle parcio; neu
- (c) cyfnod sy'n gorfod mynd heibio cyn y caiff cerbyd ddychwelyd i fan parcio wedi iddo gael ei symud oddi yno.

(2) Rhaid i orchymyn y bydd y rheoliad hwn yn gymwys iddo gynnwys esemptiad rhag pob un o'r

unloading) the waiting of vehicles, or any class of vehicles, in a road at all times of day or during one or more specified periods of the day;

- (b) does not apply to a bus lane or cycle lane during its hours of operation; and
- (c) is not a provision of the kind referred to in regulation 7(1).

(2) An order to which this regulation applies shall include an exemption from the prohibition in accordance with whichever of paragraphs (3) and (4) is appropriate in favour of any vehicle displaying a disabled person's badge in the relevant position.

(3) Where the period of the prohibition does not exceed three hours the exemption shall be for the whole of that period.

(4) Where the period of the prohibition exceeds three hours the exemption shall be for a period of three hours, subject to the following conditions:-

- (a) the period of exempted waiting does not begin less than one hour after a previous period of exempted waiting by the same vehicle in the same road on the same day;
- (b) a parking disc is displayed in the relevant position on the vehicle marked to show the quarter hour period during which the period of exempted waiting began.

(5) In this regulation "parking disc" means a device which -

- (a) is 125 millimetres square and coloured blue, if issued on or after the day these Regulations come into force or orange, if issued before that date;
- (b) has been issued by a local authority and has not ceased to be valid; and
- (c) is capable of showing the quarter hour period during which a period of waiting has begun.

### **Exemptions from other provisions of orders under section 45 or 46 of the Road Traffic Regulation Act 1984**

9.-(1) This regulation applies to an order made under section 45 or 46 of the 1984 Act which prescribes -

- (a) a charge to be paid for a vehicle or vehicle of any class left in a parking place designated by the order;
- (b) a maximum period during which a vehicle may wait in a parking place; or
- (c) a period which must elapse before a vehicle taken away from a parking place may be left there again.

(2) An order to which this regulation applies shall include an exemption from each of the matters so

materion a bennir felly ar gyfer cerbyd sy'n arddangos bathodyn person anabl yn y safle perthnasol.

prescribed in favour of a vehicle displaying a disabled person's badge in the relevant position.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (a).

Signed on behalf of the National Assembly under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998 (a).

5 Gorffennaf 2000

5th July 2000

*D Elis Thomas*

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Presiding Officer National Assembly for Wales



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2000 Rhif 1785 (Cy. 122 )**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

Rheoliadau Gorchmynion Traffig  
Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar  
gyfer Personau Anabl)(Cymru)  
2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2000 No. 1785 (W. 122 )**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

The Local Authorities' Traffic  
Orders (Exemptions for Disabled  
Persons) (Wales) Regulations  
2000

© Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£2.00**

W/68/10/00

ON

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090124-X



9 780110 901244